

Strategaeth Iaith Gymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2017-2022

**wedi ei pharatoi dan ofynion
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
a
Safonau Iaith Gymraeg 2015**

CYNNWYS

	TUDALEN
1. Rhagair	3
2. Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol	4
3. Yr iaith Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy	5
4. Ein Gweledigaeth	6
5. Maes Strategol 1: Y Teulu	7
6. Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc	8
7. Maes Strategol 3: Y Gymuned	10
8. Maes Strategol 4: Y Gweithle	11
9. Maes Strategol 5: Gwasanaethau Iaith Gymraeg	13
10. Maes Strategol 6: Seilwaith	14
11. Monitro'r Strategaeth	15

1. Rhagair

Cymeradwyodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf y Cyngor ar 23 Gorffennaf 1997, ac fe'i diwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.

Fe wnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddisodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru, mae gan yr iaith Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Yn ei dro, fe wnaeth Safonau Iaith Gymraeg 2015 ddisodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

Fel rhan o'r Safonau Iaith Gymraeg, mae'n rhaid i awdurdodau yng Nghymru lunio Strategaeth Iaith Gymraeg sy'n nodi sut y byddent yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Mae'n bleser gennym gyflwyno Strategaeth Iaith Gymraeg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y bum mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu dull gweithredu arfaethedig y Cyngor wrth hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd yn y sir. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu a'i monitro'n barhaus dros y bum mlynedd nesaf. Ar ddiwedd y bum mlynedd, bydd y Cyngor yn cyhoeddi fersiwn newydd o'r Strategaeth, fel sydd ei hangen yn y Safonau.

Datblygwyd y Strategaeth Iaith Gymraeg hon gyda'r bwriad o weithio i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Conwy, yn ogystal ag yn ein sefydliad ninnau hefyd. Mae'n datblygu ar ein llwyddiannau yn y gorffennol, yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn y fwrdeistref sirol ac yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

Mae'r fersiwn hon hefyd yn seiliedig ar y chwech thema a nodwyd yn genedlaethol yn Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth: 'Iaith fyw: iaith byw', ac hefyd yn cyfeirio at strategaeth newydd y Llywodraeth am sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nid yw cynllunio ieithyddol hirdymor na llunio strategaeth iaith yn dasgau hawdd. Gall amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newid yn sydyn ac mae symudiadau'r boblogaeth - i mewn ac allan o'r sir - yn golygu bod y ffactorau hanfodol, ac felly'r data perthnasol yn dyddio'n gyflym.

Er mai cyfrifoldeb y Cyngor yw cyhoeddi'r strategaeth, ni all weithredu na chyflawni'r gofynion i gyd ar ben ei hun. Drwy ymgynghori a gweithio gyda nifer o bartneriaid lleol, sefydliadau eraill, ysgolion ac unigolion, rydym yn credu y gallwn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus a chefnogi ei llwyddiant barhaus yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r her sydd o'n blaenau yn enfawr, ond drwy osod gweledigaeth gadarn, rydym yn hyderus y bydd posib i ni hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus yn y sir.

2. Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

Fe wnaeth Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sefydlu'r egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Prif dermau'r Ddeddf oedd:

- rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd (i'w gyflawni drwy gyflwyno cynlluniau iaith),
- rhoi'r hawl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn llys yng Nghymru
- i sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Deunaw mlynedd yn ddiweddarach, cafwyd deddfwriaeth pellach - diogelodd Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a chrëwyd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith, yn ogystal â chreu swydd Comisiynydd y Gymraeg.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg y cyfrifoldeb i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan weithio i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae gan y Comisiynydd hefyd y grym i archwilio unrhyw gorff cyhoeddus am beidio â chydymffurfio gyda'r safonau. Cyflwynwyd y Safonau yng Nghonwy ar 30 Mawrth 2016 gan ddisodli'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol oedd mewn grym.

Fe wnaeth y Mesur hefyd greu amrywiaeth o safonau iaith Gymraeg ac mae'n rhoi dyletswydd ar sefydliadau i fodloni gofynion y safonau hynny. Yn ystod oes y Strategaeth hon, bydd y safonau yn raddol yn disodli system y Cynlluniau Iaith i gyd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi targed cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050. Mae'r Llywodraeth wedi nodi ein bod angen anelu at sefyllfa lle bo'r Gymraeg yn elfen gwbl naturiol o bob agwedd o fywyd pob dydd. Os ydym eisiau cyflawni hynny, mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r drafodaeth – siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n amharod i ddefnyddio'r iaith, dysgwyr, neu bobl sydd ddim yn cyfrif eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

3. Yr Iaith Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy Y Sefyllfa Gyfredol

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, bu dirywiad parhaus yn nifer a chryfder cymunedau ledled Cymru oedd yn defnyddio'r iaith Gymraeg fel eu prif fodd o gyfathrebu.

Y ffactorau hyn wnaeth gyfrannu at y dirywiad yn nifer y cymunedau, yn ystod y degawdau diweddar, lle'r oedd pawb fwy neu lai yn siarad Cymraeg bob amser:

- teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith,
- diffyg cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg
- pobl ifanc yn gadael yr ardaloedd,
- diffyg cyfleoedd gwaith,
- diffyg tai a thai fforddiadwy,
- pobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo i'r ardaloedd.

Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell data ar gyfer dadansoddi sefyllfa'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd, sy'n galluogi ni i gymharu data o ddegawdau blaenorol. Y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym am yr iaith Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw Cyfrifiad 2011. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Gyfrifiad 2011 fel gwaelodlin ar gyfer y drafft yma o'r Strategaeth, er mwyn pennu targed i gynyddu'r siaradwyr Cymraeg.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy wedi dirywio ychydig ers 1991.

	1991	2001	2011
Canran o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy	30.6%	29.4%	27.4%

Rhwng 2001 a 2011, disgynnodd y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y sir o 2%. Mae hyn yn hafal i 442 o bobl.

Yn 2011, y wardiau oedd â'r canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg oedd:

Enw'r Ward	%
Uwch Aled	70.8%
Llangernyw	68.5%
Gower	63.5%
Llansannan	63.0%
Uwch Conwy	60.7%
Rhiw	16.7%
Gogarth	16.0%
Abergele Pensarn	11.6%
Bae Cinnel	11.5%
Tywyn	10.8%

Bwriad Strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru, iaith Pawb oedd cynyddu nifer y bobl oedd yn siarad Cymraeg o 5%. Bydd eu gweledigaeth newydd o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged llawn dyhead, a fydd yn her i Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid i'w gyflawni.

4. Ein Gweledigaeth

Dyma Strategaeth iaith Gymraeg gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ein dymuniad yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghonwy.

Ein dyhead am y pum mlynedd nesaf yw atal y dirywiad a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy. O ganlyniad i hyn, ein targed yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy o 2% dros y pum mlynedd nesaf gyda'r bwriad o ystyried targed fwy hir dymor i gynyddu siaradwyr Cymraeg y sir dros y 15 mlynedd nesaf. Rydym yn bwriadu cyflawni'r weledigaeth yma drwy weithio gyda phartneriaid ar y meysydd strategol a ganlyn:

5. Maes Strategol 1: Y Teulu

Gweledigaeth:	Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.
Canlyniad a ddymunir:	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r nifer o deuluoedd lle siaredir Cymraeg gyda'r plant.
Blaenoriaethau Strategol:	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gweithio gyda phartneriaid i ehangu'r cyfleoedd anffurfiol rheolaidd sydd ar gael i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cynorthwyo eu plant i fagu hyder yn eu gallu i ddefnyddio Cymraeg. • Creu neges gyson ar draws y sector er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r iaith Gymraeg i'r teulu a gadael i blant ddysgu Cymraeg. ▪ Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ac argaeledd darparu gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd.
Dangosyddion:	<ul style="list-style-type: none"> • % o blant dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd sy'n dysgu Cymraeg. • Nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor a sefydliadau partner ar gyfer teuluoedd lle gellir defnyddio Cymraeg fel rhan o weithgaredd i deuluoedd.
Deddfwriaeth, polisiau, cynlluniau neu strategaethau cyfredol:	Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mwy na Geiriau

Rhif	Cam Gweithredu	Dyddiad
5.1	Hyrwyddo sefydliadau Cymraeg fel Menter Iaith Conwy, yr Urdd, Mudiad Meithrin, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'u gweithgareddau amrywiol ar gyfer teuluoedd.	
5.2	Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg.	

6. Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc

Gweledigaeth:	Cynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg drwy gael addysg cyfrwng Gymraeg, digwyddiadau cymdeithasol a gwasanaethau drwy Gymraeg.
Canlyniad a ddymunir:	<ul style="list-style-type: none"> • Plant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd, gwella rhagolygon gyrfaoedd a sylweddoli gwerth yr iaith. • Mwy o weithgareddau hamdden a rhai ar gyfer pobl ifanc yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. • Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
Blaenoriaethau Strategol:	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi addysgwyr (athrawon, gweithwyr ieuenctid ac ati) i hyrwyddo'r gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael yn Gymraeg er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg. • Gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a gwaith, yn enwedig ym Mlynnyddoedd 10-13. Codi ymwybyddiaeth ymysg staff sy'n dod i gysylltiad gyda phlant a phobl ifanc am yr angen i feithrin agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. • Cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. • Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc i'w helpu i ddatblygu a dod yn bencampwyr yr iaith yn eu cymunedau.
Dangosyddion:	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o blant ysgol gynradd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. • Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. • Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sylweddoli'r manteision o wneud hynny yn y tymor ehangach mewn perthynas â chyfleoedd gwaith.
Deddfwriaeth, polisiau, cynlluniau neu strategaethau cyfredol:	Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Rhif	Cam Gweithredu	Dyddiad
6.1	Archwilio cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg presennol i blant a phobl ifanc er mwyn nodi bylchau a meysydd galw uchel.	
6.2	Hyrwyddo a gweithio gyda sefydliadau fel Menter Iaith Conwy a'r Urdd.	
6.3	Gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o sefydliadau fel yr Urdd, Menter Iaith Conwy, Gwasanaethau Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, er mwyn codi ymwybyddiaeth o werth sgiliau iaith Gymraeg fel gyrfa neu gyfle gwaith.	
6.4	Datblygu a chryfhau dolenni gyda sefydliadau allanol i hyrwyddo a hwyluso amrywiaeth o weithgareddau hamdden drwy'r Gymraeg.	
6.5	Archwilio'r galw am wersi, megis gwersi nofio, yn Gymraeg a datblygu cynlluniau i ddarparu'r gwersi hynny lle bo galw'n bodoli.	

7. Maes Strategol 3: Cymunedau

Gweledigaeth:	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Conwy.
Canlyniad a ddymunir:	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o ymwybyddiaeth bod gwasanaethau'r Cyngor i gyd ar gael yn Gymraeg. Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol.
Blaenoriaethau Strategol:	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg cyfredol yn y cymunedau a rhannu arfer da. Gweithio gyda grwpiau cymunedol i brif ffrydio defnydd o'r Gymraeg a gweithio gyda darparwyr gwersi i oedolion i hyrwyddo'r cyfleoedd i ddysgu ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.
Dangosyddion:	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y gweithgareddau iaith Gymraeg sy'n cael eu trefnu a'u cynnal mewn cymunedau ledled y fwrdeistref sirol. Nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau hynny.
Deddfwriaeth, polisiau, cynlluniau neu strategaethau cyfredol:	Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhif	Cam Gweithredu	Dyddiad
7.1	Hyrwyddo argaeledd sesiynau panad a sgwrs i'r rheiny sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau.	
7.2	Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog drwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y gwasanaeth yn parhau i wisgo cortynnau gwddf a/neu fathodynau priodol sy'n dangos eu gallu – yn raddol bydd hyn yn annog y cyhoedd i siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.	
7.3	Gweithredu cynnig rhagweithiol Mwy na Geiriau.	
7.4	Cynllunio a chydlynu ymgyrch i ddyrannu bathodynau ac arwyddion iaith Gwaith i fusnesau a sefydliadau er mwyn cefnogi pobl leol i ddefnyddio'r Gymraeg.	

8. Maes Strategol 4: Y Gweithle

Gweledigaeth:	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
Canlyniad a ddymunir:	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
Blaenoriaethau Strategol:	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu. Cynyddu sgiliau iaith Gymraeg a sicrhau bod gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff yn cael ei diweddarau'n gyson. Cynyddu'r ffaith bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle. Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil wrth recriwtio, ymysg y rhai sy'n gyfrifol am recriwtio. Galluogi a chefnogi staff sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
Dangosyddion:	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y staff sy'n medru siarad Cymraeg yn y gweithle. Cynyddu nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg.
Deddfwriaeth, polisiau, cynlluniau neu strategaethau cyfredol:	Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhif	Cam Gweithredu	Dyddiad
8.1	Parhau i annog staff i lenwi'r hunanasesiad o'u sgiliau iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r teclyn mewnwyd er mwyn asesu sgiliau ieithyddol.	
8.2	Bydd hyn yn ei dro yn hwyluso'r teclyn ar e-bost i weld pwy sy'n medru siarad Cymraeg.	
8.3	Ail-sefydlu a datblygu ymhellach gyfrifoldebau Swyddogion Cyswllt yr Iaith Gymraeg.	
8.4	Cynyddu'r gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, partneriaid a'r Cyngor er mwyn hyrwyddo gwerth yr iaith Gymraeg.	
8.5	Annog busnesau a'r sector gwirfoddol i ddefnyddio bathodynau a chortynnau gwddf Iaith Gwaith a datblygu meddylfryd dwyieithog.	

8.6	Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg priodol ar gael i staff ddysgu Cymraeg.	
8.7	Sefydlu hyrwyddo'r Gymraeg fel amcan benodol i reolwyr fel eu bod yn gallu darparu tystiolaeth o'r gwaith a wnaed i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu gwasanaethau.	
8.8	Sicrhau bod Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr yn gwybod beth yw sgiliau iaith Gymraeg eu staff a chynorthwyo i wella sgiliau lle bo angen drwy'r broses recriwtio.	
8.9	Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg a sesiynau panad a sgwrs.	
8.10	Sicrhau bod gan bawb o staff y Cyngor Cysgeir a gwirydd sillafu Cymraeg ar eu cyfrifiaduron personol.	
8.11	Sicrhau bod pob aelod o staff newydd yn cael mynediad i'r modiwl am Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg.	

9. Maes Strategol 5: Gwasanaethau Iaith Gymraeg

Gweledigaeth:	Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn lleol.
Canlyniad a ddymunir:	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o wasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd. • Mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. • Canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda'n gilydd a manteision y Gymraeg.
Blaenoriaethau Strategol:	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. • Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy gynllunio'r gweithlu'n strategol.
Dangosyddion:	<ul style="list-style-type: none"> • % y staff sy'n gallu darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.
Deddfwriaeth, polisiau, cynlluniau neu strategaethau cyfredol:	Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mwy na Geiriau

Rhif	Cam Gweithredu	Dyddiad
9.1	Parhau i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r bathodynau a'r cortynnau gwddf iaith Gwaith yn ogystal â'r fersiynau electronig ar gyfer e-byst.	
9.2	Cefnogi ac annog y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl a'r dysgwyr yn eu plith i ddefnyddio eu sgiliau yn y gwaith.	
9.3	Datblygu a hyrwyddo sesiynau panad a sgwrs ar gyfer staff a chodi ymwybyddiaeth am weithgareddau tebyg yn y cymunedau.	
9.4	Codi ymwybyddiaeth am wasanaethau Cymraeg er mwyn bodloni gofynion cynnig rhagweithiol a pharhau i godi ymwybyddiaeth o'r gallu i gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy ohebiaeth yn Gymraeg.	

10. Maes Strategol 6: Seilwaith

Gweledigaeth:	Sefydliadau a gwasanaethau'n integreiddio'r Gymraeg i bolisïau a gweithgareddau.
Canlyniad a ddymunir:	Y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn briodol mewn strategaethau, polisïau ac arferion y Cyngor a phartneriaid
Blaenoriaethau Strategol:	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod prosesau asesu effaith yn ystyried yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau Iaith Gymraeg 88-90. Sicrhau bod arferion datblygu polisïau'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Lluo Polisi perthnasol. Sicrhau bod adolygiad o'r Strategaeth hon yn cael ei chynnal ymhen 5 mlynedd fel sydd ei angen dan Safon Iaith Gymraeg 146.
Dangosyddion:	<ul style="list-style-type: none"> % a nifer y polisïau sydd wedi cael eu hasesu yn unol â gofynion Safonau Iaith Gymraeg 88-90.
Deddfwriaeth, polisïau, cynlluniau neu strategaethau cyfredol:	Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013).

Rhif	Cam Gweithredu	Dyddiad
10.1	Y Gymraeg i'w chynnwys fwyfwy mewn ymgynghoriadau (fel elfen i'w hystyried yn ogystal at y sefydliadau sy'n ymgynghorwyr).	
10.2	Y Gymraeg yn rhan annatod o ddatblygu ac asesu effaith ar bolisïau arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.	
10.3	Annog partneriaid ehangach i ystyried cael y Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygu polisïau ac arferion asesu effaith arfaethedig.	

11. Monitro'r Strategaeth

Bydd y Strategaeth Iaith Gymraeg hon yn cael ei monitro gan y Swyddog Iaith Gymraeg yn ystod y bum mlynedd nesaf. Bydd ei chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn y Prif Bwyllgor Craffu'n rheolaidd gydag adroddiad blynyddol fel sydd ei angen yn ôl y Safonau am y cynnydd hyd hynny.